# Taflen Ffeithiau ar Ffibromyalgia a'r Menopos

## Ffibromyalgia

Nodweddir ffibromyalgia gan:

- Symptomau cyhyrysgerbydol
- Poen a stiffrwydd sy'n lledaenu i fannau eraill o'r corff

Mae symptomau cyffredin eraill a adroddir yn cynnwys:

- Aflonyddwch cysgu
- Blinder
- Anhwylderau hwyliau
- Camweithrediad gwybyddol neu "Niwl Ffibro"

Mae ffibromyalgia yn effeithio'n bennaf ar fenywod a gall amlygu ar unrhyw oedran, gyda symptomau fel arfer yn dod i'r amlwg rhwng 40 a 60 oed, yn cyd-fynd â'r cyfnod trawsnewid hormonaidd [2].

Mae rhai menywod sydd wedi cael diagnosis o ffibromyalgia yn y gorffennol yn nodi bod symptomau ffibromyalgia yn gwaethygu tua dechrau'r menopos. Mae tua 70% o fenywod yn profi poen cyhyrysgerbydol yn ystod y menopos. [1].

Yn ogystal, efallai y bydd cynnydd yn nifer yr achosion o ffibromyalgia newydd ar yr adeg hon [1].

## Cwsg

Adroddir bod rhwng 75% a 90% o gleifion sydd â ffibromyalgia yn dioddef o aflonyddwch cysgu.

Mae cwynion sy'n gysylltiedig â chwsg yn aml yn cynnwys;

- Ansawdd cwsg gwael
- Cwsg tameidiog
- Anhawster syrthio i gysgu
- Cwsg nad yw'n adferol
- Deffro'n gynnar

Mae gan anhwylderau cwsg effaith enfawr ar symptomau ffibromyalgia, gan gynnwys problemau cyhyrysgerbydol, poen, blinder, anhwylderau hwyliau a swyddogaeth wybyddol [2].

Mae cwsg gwael wedi'i adrodd mewn bron i 90% o gyfranogwyr sydd â ffibromyalgia. Mae cwsg a Ffibromyalgia yn arddangos perthynas gydfuddiannol, felly mae ansawdd cwsg yn gwaethygu gyda difrifoldeb symptomau ffibromyalgia [3].

## Menopos

Yn ystod cyfnod trawsnewid y menopos, mae tua 70% neu fwy o fenywod yn profi symptomau sy'n gysylltiedig â diffyg oestrogen.

Mae symptomau cyffredin a adroddir yn cynnwys:

- Pyliau o wres
- Aflonyddwch cysgu
- Chwysu yn ystod y nos
- Cylchredau mislif afreolaidd
- Sychder y wain
- Camweithrediad rhywiol
- Gorbryder a hwyliau isel
- Poen a stiffrwydd yn y cymalau

Mae'r symptomau hyn yn gysylltiedig â chyfnod trawsnewid y menopos, gyda chynnydd graddol mewn adroddiadau o'r menopos cynnar i'r menopos hwyr [2].

## Triniaeth ar gyfer y Menopos

Mae GIG Cymru [4] yn awgrymu'r canlynol:

- Therapi Adfer Hormonau (HRT) – tabledi, patsys croen, geliau a mewnblaniadau sy'n lleddfu symptomau'r menopos trwy ddisodli oestrogen.
- Eliïau estrogen, iraid neu leithyddion y wain ar gyfer sychder y wain.
- Therapi Ymddygiad Gwybyddol (CBT) – math o therapi siarad a all helpu gyda hwyliau isel a gorbryder.
- Bwyta deiet iach a chytbwys a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Gall cynnal pwysau iach ac aros yn ffit ac yn gryf wella rhai symptomau'r menopos.

## Ffibromyalgia a'r Menopos

Mae cysylltiad rhwng gostyngiad mewn hormonau rhyw (estrogen, testosteron a phrogesteron) a symptomau Ffibromyalgia.

Mae rhai menywod sydd â Ffibromyalgia wedi profi menopos cynnar, gyda symptomau naill ai'n dechrau neu'n gwaethygu ar ôl y menopos.

Yn ogystal, mae menywod sy'n profi menopos cynnar yn tueddu i fod â lefelau uwch o sensitifrwydd i ysgogiadau poen a rhai nad ydynt yn boen o'i gymharu â'r rhai sy'n profi menopos hwyr [2].

# Opsiynau Cymorth

**Sesiwn Ymwybyddiaeth Menopos ar Opsiynau, Cyngor, Gwybodaeth (OAK)**

Cynhelir y sesiynau gan Nyrs Glinigol Arbenigol sy'n rhoi atebion i'r cwestiynau canlynol:

- Beth yw Menopos?
- Beth yw'r symptomau?
- Sut y gallaf reoli'r symptomau?
- Pa driniaethau sydd ar gael?
- A yw HRT yn ddiogel?

Os hoffech fwy o wybodaeth neu os hoffech ddod i un o'r sesiynau, cysylltwch â'r tîm ar:

01495 768645 neu OAKReferrals.ABB@wales.nhs.uk

**Gwasanaeth Rheoli Symptomau**

Mae rheoli ffibromyalgia fel arfer yn cynnwys dull amlochrog, gan gynnwys ymarfer corff, rheoli straen a gwneud addasiadau ffordd o fyw sydd wedi'u teilwra i anghenion yr unigolyn.

Er nad oes iachâd ar gyfer ffibromyalgia, rydym yn gwybod y gall cymorth i reoli symptomau, megis poen, blinder a blinder gwybyddol (niwl yr ymennydd) a dysgu sgiliau wrth reoli egni fod o gymorth. Rydym hefyd yn gallu cynnig cymorth gyda phroblemau o ran gwaith ac addysg, cwsg, hwyliau isel a gorbyder a achosir gan ffibromyalgia.

Y nod yw helpu pobl i gael ansawdd bywyd gwell, gan wneud mwy o'r hyn sy'n bwysig iddynt o fewn y terfynau gwirioneddol a osodir arnynt gan eu cyflwr.

Rydym yn cynnig:

- Sgyrsiau sy'n Benodol i Gyflyrau ar gyfer Ffibromyalgia, ME/CFS a Covid Hir
- Gweithdai sy'n benodol i symptomau ar gyfer Rheoli Egni, Niwl yr Ymennydd, Anadlu Anhwylderol, Straen a Lles
- Cymorth ar sail 1:1 gyda Chydlynydd Therapi Galwedigaethol, Ffisiotherapi, Seicoleg, Ymarfer Corff/Adsefydlu

Os hoffech fwy o wybodaeth neu os hoffech ddod i un o'r sesiynau, cysylltwch â'r tîm ar:

03330 415379 neu Abb.symptommanagementservice@wales.nhs.uk

https://bipab.gig.cymru/ysbytai/a-y-o-wasanaethau/gwasanaeth-rheoli-symptomau/gwybodaeth-i-oedolion/

**Gwent yn Symud yn Well**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi datblygu'r wefan hon i helpu cymuned BIPAB i ofalu am eu hesgyrn, eu cymalau a'u cyhyrau.

Am fwy o wybodaeth, ewch i: https://gwentynsymudynwell.gig.cymru/

1. Clarke, J., Briggs, P., & Goebel, A. (2025). Fibromyalgia and the menopause transition – what's what? Implications for patient outcomes. Post Reproductive Health, 31(1), 50–53. https://doi.org/10.1177/20533691251325688
2. Vidal-Neira, L. F., Neyro, J. L., Maldonado, G., Messina, O. D., Moreno-Alvarez, M., & Ríos, C. (2024). Climacteric and fibromyalgia: a review. *Climacteric*, *27*(5), 458–465. https://doi.org/10.1080/13697137.2024.2376190
3. Dias RCA, Kulak Junior J, Ferreira da Costa EH, Nisihara RM. Fibromyalgia, sleep disturbance and menopause: Is there a relationship? A literature review. *Int J Rheum Dis*. 2019; 22: 1961–1971. **https://doi.org/10.1111/1756-185X.13713**
4. https://111.wales.nhs.uk/encyclopaedia/m/article/menopause?locale=cy&term=A